Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 28ain Ebrill, 2020 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Rhith-gyfarfod (Ar hyn o bryd nid oes modd i'r cyhoedd fynychu y cyfarfod) |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |

| | |
|---|---|
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | **Eitem** | **Cyflwynir gan** | **Swyddog** | **Tud.** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION Y CYFARFOD GYNHALIWYD AR 10 MAWRTH 2020 | | | 3 - 8 |
| 6 | CAIS AM ADNODDAU I'R ADRAN ADDYSG | Cyng. Cemlyn Williams | Garem Jackson | 9 - 11 |
| 7 | DIWEDDARIAD AR YR YMATEB I BANDEMIG COVID-19<br>Adroddiad llafar | | Dilwyn Williams | |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2020

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager, Hefin Underwood (Aelod Lleol – eitem 6) a Dylan Fernley (Aelod Lleol – eitem 9)

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid), ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant, Economi a Chymuned) a Nia Gruffydd (Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd)
Eitem 7: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Debbie Ann Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg) a Hedd Tomos (Rheolwr Uned Moderneiddio)
Eitem 8: Delyth Gadlys (Swyddog Cydraddoldeb)
Eitem 9: Dafydd Gibbard (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo) a Catrin Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dafydd Meurig, Cyng. Dilwyn Morgan ac y Cyng. Cemlyn Williams.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Catrin Wager a'r Cyng. Ioan Thomas ar gyfer eitem 7 – Addysg Ôl-16 gan fod y ddau yn aelod o'r llywodraethwyr mewn ysgolion uwchradd yn Arfon.

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu

### 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 CHWEFROR

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2020 fel rhai cywir.

## 6. CYNLLUN BUDDSODDI I ARBED - NEUADD DWYFOR

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i:
- Gefnogi'r egwyddor o ddatblygu prosiect cyfalaf buddsoddi i arbed gwerth hyd at uchafswm o £779,314 yn Neuadd Dwyfor er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau, gwella'r cyfleon i godi incwm a sicrhau diogelwch defnyddiwr;
- Cydnabod y risg o golled incwm o ganlyniad i gau'r Neuadd yn ystod y gwaith adeiladu os bwrir ymlaen;
- Cefnogi dyrannu cyfraniad un-tro o gyllideb Trawsnewid y Cyngor ar gyfer buddsoddiad – sef hyd at £570,000 (cyfalaf);
- Cefnogi ail-broffilio arbedion fel a gytunwyd yn wreiddiol i'r proffil a amlinellir yn nhabl 8.1;
- Cefnogi cyflwyno ceisiadau i gyrff allanol i geisio lleihau cyfraniad y Cyngor ac uchafu gwerth buddsoddiad y Cyngor;
- Cefnogi adnabod a chydweithio gyda phartneriaethau a sefydliadau lleol all gefnogi'r Neuadd i gyrraedd y targed arbediad llawn o £100,000 yn y tymor canolig yn dilyn y buddsoddiad – a hynny drwy osod her arnynt i leihau'r bwlch ariannol a chynorthwyo'r Cyngor i wneud arbediad parhaol o £100,000 yn y gyllideb erbyn 2025.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adeilad yn cartrefu theatr, sinema a llyfrgell ym Mhwllheli a phwysleisiwyd nad oes buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud i'r adeilad na'i adnoddau ers 1996. Mynegwyd fod ymgeision wedi ei wneud yn 2013-14 i drosglwyddo'r Neuadd i fudiad ond oherwydd costau uchel o waith diweddaru ni fu modd cytuno i wneud hyn.

Mynegwyd fod y penderfyniad yn gofyn am fuddsoddiad yn yr adeilad a bod arian wedi ei gadarnhau ar gyfer cyfran o'r arian. Ychwanegwyd y bydd yr arian yn gwella cyfleusterau ynghyd â'r cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid eraill yn yr ardal.

Nodwyd fod yr adeilad yn gartref i'r Llyfrgell yn ogystal a mynegwyd fod rheolaeth yr adeilad a'r llyfrgell yn hanesyddol wedi bod yn ddwy swydd ar wahanol. Pwysleisiwyd ym mis Rhagfyr fod rheolaeth y ddau dîm bellach yn adrodd i'r un rheolwr. Amlygodd y Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant fod gwaith ymgynghori wedi ei wneud i weld beth yw dyheadau'r trigolion lleol a bod yr ymgynghoriad hwn wedi bod yn sylfaen i'r cynllun busnes. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd fod y newidiadau sydd wedi ei gwneud a gobeithir ei

gwneud am sicrhau fod yr holl adeilad yn gweithio yn fwy effeithlon, gyda thimau yn gweithio yn nes ac y bydd modd i ehangu ar oriau agor y llyfrgell.

Mynegodd yr Aelod Lleol fod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio i gymaint yn fwy 'na sinema a bod y Cyngor yn rhoi buddsoddiad yn yr adeilad yn ffordd ymlaen. Ychwanegodd pe bai'r Cyngor yn penderfynu ei gau y byddai llawer o wariant cynnal a chadw ar yr adeilad. Ategodd fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r ardal yn 2021 ac y bydd defnydd yn cael ei wneud o'r adeilad yn ystod yr wythnos honno. Pwysleisiodd fod y Neuadd yn agos at galon trigolion yr ardal a bod gwerth yn ei gadw a buddsoddi ynddo.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod llawer o staff ifanc yn gweithio yn y Neuadd a bod cyfleodd yno iddynt. Pwysleisiwyd pwysigrwydd adfywio yn yr ardal.
- Nodwyd fod y cynllun yn un cyffrous a bod yr adeilad yn adnodd pwysig yn lleol. Mynegwyd ei bod yn gyfnod cyffroes i newid y meddylfryd am yr adeilad a defnydd o'r adeilad a'i bod yn arbennig o dda fod yr adran yn cymharu'r adeilad gyda datblygiad 'Story House' yng Nghaer.
- Holwyd o ran ariannu os oes modd cael grantiau neu arian o gyrff eraill. Nodwyd fod trafodaethau wedi ei chynnal gyda Chronfa Treftadaeth a'r Cyngor Celfyddydau Cymru ond fod arian cyfalaf y Cyngor Celfyddydau wedi ei ymrwymo am eleni. Mynegwyd fod modd cael cefnogaeth refeniw i hwyluso gyda'r cyfnod pontio. Mynegwyd eu bod wedi trafod cais i Gronfa Gymunedol Loteri Genedlaethol - ond fod tri chais wedi ei amlygu ym Mhwllheli ac felly mae'r cystadlaethau yn gryf. Nodwyd nad yw'r cynllun yn gymwys ar gyfer grant gan Groeso Cymru.
- Amlygwyd os yn gwneud addasiadau mawr i'r adeilad y bydd angen ail ymweld â'r asesiad cydraddoldeb.
- Nodwyd fod angen cefnogaeth gan y trigolion lleol - os yw'r Cyngor yn dangos hyder yn y fenter ac yn buddsoddi y bydd angen i bobl leol ddangos hyder yn yr adeilad yn ogystal.
- Mynegwyd fod Neuadd bellach wedi sefydlu 'Ffrindiau Neuadd Dwyfor' a gobeithir y bydd cefnogaeth gan y trigolion lleol. Ychwanegwyd fod yr adran yn gobeithio drwy wneud y buddsoddiad yma y bydd modd gwneud arbedion yn y tymor canolig ynghyd a sicrhau adnodd sylweddol ym Mhen Llŷn.

## 7. ADDYSG ÔL-16

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd rhoi caniatâd i'r adran gynnal trafodaethau gyda rhan-ddeiliad er mwyn ystyried y ddarpariaeth bresennol ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn cyd-adnabod y cyfeiriad a chyfleodd i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r angen am gyfundrefn ôl-16 newydd o ganlyniad i fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddf newydd yn ystod 2020. Ychwanegwyd y bydd hyn yn codi trafodaeth yng Ngwynedd gan fod seiliau'r gyfundrefn yn dyddio yn ôl 40 mlynedd, ac o ganlyniad i hyn mynegwyd ei bod yn amserol i fod yn edrych ar y gyfundrefn. Pwysleiswyd y bydd y ffocws yn benodol ar ardal Arfon ble mae'r ddarpariaeth yn parhau mewn ysgolion, er hyn bydd yr adran yn edrych ar y ddarpariaeth y sir.

Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu'r achos dros newid gan fod llawer o wahaniaethau o ran safonau ac mewn meysydd penodol. Amlygwyd ar hyn o bryd fod y ddarpariaeth yn Arfon yn cael ei wneud drwy gonsortiwm ac o ganlyniad fod angen trafodaeth agored ac adeiladol i greu cyfundrefn i'r dyfodol. Ychwanegwyd fod angen cryfhau'r cyfleoedd i astudio pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mynegwyd fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar sut maent yn ariannu cyfundrefn ôl-16 ac mae penderfyniad fod angen edrych ar y ddarpariaeth cyn cael cadarnhau'r arian. Nodwyd mai newid cwricwlwm addysg yw'r prif newid ac y bydd y ffocws yn cael ei bwysleisio dysgu a phrofiadau pellach. O ganlyniad i hyn, mynegwyd fod angen edrych ar y ddarpariaeth i barhau'r daith datblygu yma. Ychwanegwyd fod angen edrych o ran anghenion cyflogwyr fel bod modd astudio pynciau penodol ar gyfer meysydd penodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd yr adroddiad gan nodi yn arferol fod yr adran yn dod i'r Cabinet gydag opsiynau ac yna y bydd ymgynghoriad ar yr opsiynau yma, ond eu bod yn bwriadu trafod yn gyntaf cyn mynd i ddatblygu opsiynau.
- Mynegwyd fod yr adroddiad yn nodi pryder am ddarpariaeth bresennol a gofynnwyd am esboniad pellach. Esboniwyd fod y gyfundrefn yn ceisio eu gorau ond fod rhai ysgolion yn astudio gwahanol bynciau mewn ysgolion gwahanol ac o ganlyniad yn teithio o un lle i'r llall. Mynegwyd fod angen edrych ar sicrhau fod yr un gefnogaeth a'r un cyrsiau ar draws y sir. Nodwyd ei fod yn gyfle i greu cyfundrefn gyffroes ac addas.
- O ran amserlen mynegwyd y bydd ymgynghoriad yn cael ei wneud yn y misoedd nesaf ac y bydd adroddiad i'r Cabinet cyn diwedd yr haf.

**8. CYNLLUN CYDRADDOLDEB 2020-24**

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y ddogfen.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Mynegwyd nad yw'r adroddiad yn un newydd gan ei fod wedi ei gyflwyno er mwyn ymgynghori cyn y Nadolig.

Mynegwyd fod y cynllun wedi ei ysgrifennu yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ychwanegwyd fod y Cyngor yn angerddol am gydraddoldeb ac eisiau ei hyrwyddo. Nodwyd fod gwaith ymgysylltu wedi ei wneud ar y Cynllun a bod addasiadau wedi ei gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad. Pwysleiswyd fod y Cynllun yn gryf ac yn arwain at degwch i bobl Gwynedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolch i'r adran a'r swyddog am eu gwaith yn edrych ar ôl pobl Gwynedd. Ychwanegwyd ei bod yn ddyletswydd ar y Cyngor i gael y ddogfen hon

## 9. CANOLFAN INTERGREDIG MAESGEIRCHEN

Cyflwynwyd gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNIAD**

Cydweithio gyda'r cymuned ym Maesgeirchen, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac Adra i ddatblygu cynllun posib ar gyfer Canolfan Integredig ar y stad ar gyfer gwasanaethau a darpariaeth cefnogi teulu ac adrodd yn ôl gydag argymhellion ar gyfer y ffordd ymlaen.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn gynllun cyffroes sydd yn deillio o waith ymgysylltu gyda thrigolion Maesgeirchen. Ychwanegwyd fod y cynllun yn cael ei arwain gan y Cyngor ond y bydd yn cael ei lunio a'i siapio drwy wrando ar ddyheadau'r trigolion.

Ychwanegodd yr Aelod Lleol fod ardal Maesgeirchen yn ardal arbennig, er bod problemau fod cryfderau mawr i'w gweld yno. Mynegwyd yn dilyn colli'r Clwb Cymdeithasol fod cefnogaeth ar gael gan Dŷ Cegin ynghyd â'r ysgol ond nad oes unrhyw grwpiau yn cyfarfod yn y stad sydd wedi arwain at broblemau. Mynegwyd fod colli'r canolfan yma wedi arwain at effaith cymdeithasol ac iechyd i drigolion. Ymhelaethodd fod buddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol ac o ganlyniad fod dau aelod o staff bellach yn gweithio ar y stad ond fod angen canolfan gymunedol. Nododd fod y cynllun hwn yn cael ei yrru gan anghenion y trigolion a bod cefnogaeth ar gael gan y Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd o ran cyfraniad ariannol os yw'r arian ar gael. Nodwyd fod yr arian wedi ei glustnodi yn barod ond nad yw'r gyllideb yn rhan o'r drafodaeth gan ei fod yn ddibynnol ar beth yw anghenion y trigolion. Pwysleiswyd fod angen asesiad o beth mae'r gymuned ei angen cyn penderfynu ar gyllideb bendant a bod hyn wreiddiol i sut mae'r Cabinet yma eisiau rhedeg y Cyngor. Pwysleisiwyd fod y cynllun yn amlygu fod y Cyngor yn cefnogi datblygiadau sydd cael eu hadeiladu o'r gwaelod.
- Nodwyd ei bod yn wych fod y sgwrs yn cael ei gynnal yn gyntaf i ddeall anghenion y trigolion cyn mynd ymlaen i gynnig opsiynau ac edrych ar gost y cynllun.

— Mynegwyd fod angen i’r trigolion fod yn gefnogol  i’r datblygiad.
— O ran amserlen, mynegwyd nad oedd un penodol ond fod trafodaeth wedi dechrau i edrych ar anghenion yr ardal

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.05 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **28 Ebrill 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Garem Jackson** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32489** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cais am Adnoddau gan yr Adran Addysg** |

## 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Ychwanegu Cynhwysedd i Gefnogi Ysgolion Uwchradd y Sir.
I ymrwymo £180,000 o gyllid un tro o gronfa trawsffurfio'r Cyngor hyd at diwedd Mawrth 2022 ar gyfer galluogi'r Adran Addysg i gael adnodd ychwanegol ar delerau secondiad am gyfnod o ddwy flynedd er mwyn targedu, cefnogi a chynnig her briodol ac amserol i'r ysgolion uwchradd gan wireddu un o'r ymrwymiadau yng Nghynllun y Cyngor er mwyn gwella'r deilliannau i blant a phobl ifanc.

## 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae gan Wynedd gyfanswm o 99 o ysgolion (83 cynradd, 12 uwchradd, 1 ddilynol, 1 gydol oes, a 2 arbennig).

Mae proses genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion. Mae lliw'r categori yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgol – gwyrdd, melyn, melyngoch neu goch. (Yr ysgolion yn y categori gwyrdd sydd angen y lefel isaf o gymorth, a'r rheiny yn y categori coch sydd angen y cymorth mwyaf dwys.)

Mae proffil categoreiddio cynradd Gwynedd gyda'r cryfaf yng Nghymru, gyda'r holl ysgolion cynradd yn y categori melyn neu wyrdd. At hyn, nid oes yr un ysgol gynradd yng Ngwynedd mewn unrhyw ddilyniant gan Estyn.

Mae'r proffil o ran y sector uwchradd yng Ngwynedd yn gyffredinol gadarnhaol, ond mae lleiafrif o ysgolion yn destun pryder ac angen y lefel fwyaf ddwys o gymorth. Mae dwy allan o'r tair ysgol uwchradd sydd yn y categori coch hefyd mewn categori statudol gan Estyn.

| Categori Ysgolion Uwchradd | Gwyrdd | | Melyn | | Melyngoch | | Coch | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer / Canran** | 4 | 29% | 6 | 43% | 1 | 7% | 3 | 21% |

*Noder bod Ysgol Bro Idris ac Ysgol Godre'r Berwyn wedi eu cynnwys yn y data uwchradd.

Ar hyn o bryd, mae gan yr Adran Addysg ddau Swyddog Addysg Ardal, un yn gwasanaethu ysgolion Arfon, a'r llall yn gwasanaethu ysgolion Meirion a Dwyfor. Fel rhan o'u dyletswyddau, mae'r ddau Swyddog Addysg Ardal yn gyfrifol am:

- gefnogi'n amserol yr ysgolion hynny sy'n peri pryder ac yn flaenoriaeth i'r sir;
- targedu, cefnogi a chynnig her briodol ar bob lefel i'r ysgolion rheiny sydd mewn categorïau cefnogaeth coch a melyngoch a/neu sydd mewn categori statudol Estyn;
- darparu her a chefnogaeth briodol i sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol holl ysgolion y sir;
- cydweithio gyda holl ysgolion y sir i wella'r deilliannau i blant a phobl ifanc

Mae'r Swyddogion Addysg Ardal hefyd yn gyd-gyfrifol am y Ganolfan Fusnes Ysgolion a leolir ym Mhwllheli. Fe'i sefydlwyd ym Medi 2019, ac mae'n canolbwyntio ar leihau baich gwaith penaethiaid, cefnogi rheolaeth effeithiol ar gyfer ysgolion Gwynedd, yn ogystal â darparu gwasanaethau penodol drwy gytundeb gyda'r ysgolion cynradd.

Mae'r Swyddogion Addysg Ardal hefyd yn arwain ar foderneiddio'r gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, yn cynnwys arwain prosiectau'r Rhaglen Ysgolion 21G, adolygu dyfodol ysgolion cynradd bregus sydd â niferoedd dysgwyr isel, yn ogystal â chefnogi ysgolion gyda'r broses o benodi penaethiaid, penaethiaid mewn gofal, a dirprwyon.

Golyga'r ymrwymiadau gwaith hyn fod adnoddau'r ddau Swyddog Addysg Ardal ar draws y gyfundrefn yn rhy gyfyngedig i allu rhoi blaenoriaeth ac adnoddau teilwng i'r sector uwchradd sydd yn flaenoriaeth, ynghyd â gwireddu rhai blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor.

O ganlyniad, pwrpas y cais hwn yw sicrhau cynhwysedd ychwanegol i dîm craidd yr Adran sy'n cefnogi ysgolion, er mwyn galluogi'r Adran i gyflawni ei weledigaeth yng nghyd-destun cryfhau arweinyddiaeth ein hysgolion ynghyd â chefnogi cydweithio ym Meirionnydd – dau faes blaenoriaeth a welir yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r Adran wedi adnabod Meirionnydd fel prosiect blaenoriaeth allweddol yn sgil yr heriau sy'n wynebu'r ysgolion o safbwynt recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr yn sgil maint yr ysgolion uwchradd. Bydd sicrhau ffocws penodol ar gefnogi'r sector uwchradd yn galluogi gwireddu gweledigaeth yr Adran yng Nghynllun y Cyngor gan allu rhyddhau amser ac adnoddau'r Swyddogion Addysg presennol i ganolbwyntio ar gefnogi'r gyfundrefn ysgolion yn ei holl agweddau.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Byddai derbyn adnoddau ychwanegol gan y Cyngor yn galluogi'r Adran Addysg i dargedu, cydweithio, cefnogi a chynnig her briodol ac amserol i'r ysgolion uwchradd rheiny sydd mewn categorïau cefnogaeth coch a melyngoch, ynghyd â'r ysgolion uwchradd ym Meirionnydd yn sgil yr heriau sy'n eu hwynebu o safbwynt recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr; hyn oll er mwyn gwella'r deilliannau i blant a phobl ifanc y sir.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

a) Ychwangeu Cynhwysedd i Gefnogi Ysgolion Uwchradd y Sir.

Os caiff y cais am adnoddau ychwanegol i gefnogi ysgolion uwchradd y sir a gwireddu un o flaenoriaethau'r Adran yng Nghynllun y Cyngor ei gymeradwyo gan y Cabinet, bwriedir penodi adnodd ychwanegol i dîm craidd yr Adran Addysg, a hynny ar delerau secondiad am gyfnod o

ddwy flynedd yn y lle cyntaf.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Amherthnasol.

**Barn yr Aelod Lleol:** Nid yw'n fater lleol.

**Sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid:**
Credaf fod y swm ariannol yn yr adroddiad yn amcangyfrif teg o gostau ychwanegol perthnasol yr Adran Addysg. Mae adnoddau digonol yn y Gronfa Trawsffurfio i ariannu'r swydd yma, ond wrth gwrs nid yw'n ffynhonnell ddiderfyn o arian. Fel gyda phob cais arall am arian o'r gronfa, bydd angen i'r Cabinet bwyso a mesur os yw'r defnydd hwn o adnoddau yn bodloni ei flaenoriaethau, yn arbennig wrth ystyried y golled ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor yn sgil cyfyngiadau'r Coronafirws.

**Sylwadau'r Swyddog Monitro**
Mae sylwadau'r Swyddog Cyllid yn cadarnhau fod adnoddau digonol yn y gronfa i gyfarch y gofyn yma sydd yn rhan o Gynllun y Cyngor. Fe nodir hefyd gan y Prif Swyddog Cyllid mae mater i'r Cabinet yw pwyso a mesur rhyddhau'r arian yn erbyn y gofyn yma.